

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 13 Ionawr, 2020 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presenol: Gwyn (GW) Iolo (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Richard (RR), Gareth (GER)

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi, Eirwen, Iolo ap Gwynn

1.	<p><u>CYHOEDDIADAU</u></p> <p>Nododd y Cadeirydd ei fod yn falch o weld fod Dwynwen yn gwella ar ôl ei chodwm cyn y Nadolig pan niweidiodd ei ffêr wrth redeg.</p> <p>Hefyd llongyfarchodd Aneurin a Dilys Phillips ar gwblhau cerdded Llwybr Arfordir Cymru yn ddiweddar.</p>	
2.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Medi, 2019 fel rhai cywir.</p> <p><u>Eitem 5 Offer y Clwb</u></p> <p>Adroddodd DAP ei bod bellach wedi paratoi rhestr o'r holl offer sydd ym meddiant y Clwb y gwyddai amdano a bod yr offer ar y rhestr oedd ddim ym meddiant aelodau wedi eu trosglwyddo iddi.</p> <p>Mae ganddi loches a phhecyn cymorth cyntaf yn sbâr.</p> <p>Diolchwyd i DAP am ei holl waith yn cael trefn ar offer y Clwb. Cytunwyd y dylid cysylltu â Dewi Hughes i weld os oes ar griw'r de angen lloches ar gyfer eu teithiau ac y dylai'r offer cymorth cyntaf fod ar gael i arweinyddion teithiau'r Clwb.</p> <p><u>Eitem 12 Y Babell Lân – Cwmni Da</u></p> <p>Nododd DAP ei bod heb dderbyn taliad gan Gwmni Da ac y byddai yn eu holi i weld beth yw'r sefyllfa.</p>	
3.	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2019</u></p> <p>Cafwyd adborth gan IPR ar y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Goat ym Meddgelert ar 9fed Tachwedd, 2019.</p> <p>Rhoddodd amlinellad byr o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
4	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol.</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• hyd at 3pm ar 13/1 roedd 251 o aelodau wedi talu y tâl aelodaeth lawn o £20• bod 42 o aelodau wedi talu'r hen dâl o £15 ac roeddynt wedi cael neges i ddweud na fyddent yn aelodau nes derbyn £5 pellach ganddynt• bod 31 o gyn aelodau heb dalu o gwbl a'u bod wedi derbyn nodyn atgoffa• doedd heb glywed dim pellach parthed y sefyllfa hefo'r CMP a 'u tanysgrifiadau <p>Cytunwyd</p> <p>i. derbyn y wybodaeth</p> <p>ii. nodi nad yw'r 42 sydd heb dalu'r tâl llawn bellach yn aelodau llawn ac na ddylent dderbyn negeseuon e-bost y Clwb o hyn ymlaen hyd nes y byddant wedi talu'r £5 ychwanegol a'u bod yn cael eu categorio fel cefnogwyr</p>	

	<p>iii y dylid tynnu'r 31 sydd heb ail-ymaelodi erbyn diwedd Mawrth oddi ar y rhestr e-byst nes y byddant wedi ail-ymaelodi</p> <p>iv.gofyn i EO gysylltu â Haf a Dewi i sicrhau eu bod yn tynnu'r enwau dan sylw oddi ar eu rhestrau hwy hefyd</p> <p>v. y dylid yn ddiweddarach yn y flwyddyn gofyn i'r Cyfarfod Blynyddol ystyried y syniad fod yn rhaid i bawb sy'n ymaelodi â'r Clwb dalu eu tâl aelodaeth drwy orchymyn banc yn unig ac ni ddylid derbyn tâl drwy arian parod a sieciau er mwyn gwneud y broses yn fwy llyfn a gweld beth fyddai 'r adwaith.</p>	
5.	<p><u>CAIS AM STATWS ELUSENNOL I'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd DAP bod y cais i gofrestru y Clwb fel elusen bron yn barod a disgwyliai iddo gael ei gyflwyno yn fuan</p> <p>Roedd ar ddeall y gall y Comisiynydd Elusennau gymryd peth amser i wneud penderfyniadau ac felly tybiai y byddai'n rhaid disgwyl am dipyn nes cael ymateb i'r cais.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth ac y dylid disgwyl i weld beth fydd ymateb y Comisiynydd Elusennau..</p>	
6.	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2020</u></p> <p>Adroddodd DP ar y sefyllfa gyfredol</p> <p>Cytunwyd y byddai DP yn</p> <p>i. cysylltu hefo trefnwyr yr Eisteddfod i logi lle ym Mhabell y Cymdeithasau yn fuan wedi iddynt ddechrau cymryd archebion</p> <p>ii. gofyn i Caradog Jones os byddai'n fodlon rhoi'r ddarlith ac os byddai cadarnhau pa ddiwrnodiau yr oedd ar gael yn ystod yr wythnos cyn cysylltu â'r Eisteddfod</p> <p>iii. Gan y bydd DP i ffwrdd yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd GW a RR ac eraill yn cymryd yr awenau hefo'r trefniadau bryd hynny.</p>	
7	<p><u>CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU</u></p> <p>Adroddwyd gan IPR</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru (CELC) wedi cysylltu yn y gorffennol i ofyn a fyddai'r Clwb yn fodlon eu cefnogi yn y gwaith a wneir ganddynt ac y penderfynwyd bryd hynny holi a fyddent yn darparu arweiniad ynglŷn â sut y gallai'r Clwb fod o gymorth iddynt • eu bod wedi cysylltu ymhellach yn holi os y byddai gan aelodau'r Clwb ddiddordeb mewn cydweithredu ag unrhyw brosiectau gwybodaeth fanwl o fân enwau llwybrau lleol neu nodweddion sydd ar lwybrau mewn ardaloedd penodol. Roedd ganddynt brosiect o'r fath ar y gweill yn gyfredol ar gyfer ardal Glaslyn gyda Dei Tomos ac Aled Taylor (awdur Ceidwad y Mynydd) yn edrych am enwau lleoedd / llwybrau ardal Glaslyn, a fyddai wedyn yn cael eu cofnodi ar fap digidol CELC a'r ffynhonnell yn cael ei nodi. <p>Cytunwyd</p> <p>i. nodi eto bod y Clwb yn gyffredinol yn gefnogol i amcanion y Gymdeithas ac yn fodlon gyrru neges i'r aelodaeth i weld a oes diddordeb yn eu mysg i gynorthwyo ar brosiectau penodol</p> <p>ii. fodd bynnag gan nad oedd yn hollol glir beth yn union roedd y Gymdeithas yn dymuno i'r Pwyllgor ac aelodau unigol ei wneud, byddai EO yn cysylltu â hwy i ganfod rhagor o wybodaeth</p>	
8	<p><u>DOGFENNAU'R CLWB</u></p>	
	Adroddodd GW ei fod wedi meddwl ar ôl gweld rhai o'r dogfennau yn olrhain hanes y Clwb a	

	<p>arddangoswyd yn y stondin yn yr Eisteddfod yn Llanrwst a ddylid ystyried modd o'u cadw a'u diogelu i'r dyfodol fel ffynhonnell o wybodaeth am ddatblygiad mewn hanes cymdeithasol/ gweithgareddau awyr agored Cymreig. Yn sgil hyn roedd wedi bod yn ystyried a ddylid cysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld os byddai ganddynt ddiddordeb mewn cadw'r dogfennau.</p> <p>Cytunwyd gofyn i GW gysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn derbyn a chadw dogfennau yn olrhain hanes y Clwb ac y dylid ystyried y mater ymhellach eto wedi derbyn eu hymateb.</p>	
9.	<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>	
	<p>Adroddodd EO ar nifer o faterion yn ymwneud â'r rhaglen weithgareddau</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. Gofyn i EO ystyried y posibilrwydd o drefnu taith breswyl i Ardal y Llynnoedd yn yr hydref</p> <p>ii. Cytuno â'r syniad y dylid cynnal diwrnod blasu eto a gan fod Gŵyl Banc Calan Mai ar ddydd Gwener eleni y dylid cynnal y diwrnod blasu ar ddydd Sul 10fed Mai.</p> <p>iii Byddai IPR yn trefnu taith Pedol Marchlyn yn y Gogledd</p> <p>iv Bod EO yn gofyn i Tegwyn os byddai yn fodlon trefnu taith ar Aran Fawddwy ar gyfer y Canolbarth.</p> <p>v. Bod EO yn cysylltu â Dewi i weld os byddai criw'r de yn fodlon trefnu taith ar y diwrnod</p> <p>vi. Nodi bod DP yn edrych ar y posibilrwydd o drefnu taith hir "Môr i Fôr" ar gyfer penwythnos 27-28 Mehefin</p> <p>vii Diolch i EO am ei waith diwyd.</p>	
10.	<u>MATERION CMP</u>	
	<p>Adroddodd SW</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y CMP wedi gofyn iddo weithredu fel Cydlynnydd ar gyfer grwpiau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru ac ei fod yn ystyried y cynnig Bod y CMP wedi cysylltu â'r Parc Cenedlaethol yn nodi eu pryderon am y gwasanaeth rhagolygon tywydd a ddarperir ganddynt ar gyfer Yr Wyddfa Bod trafodaeth yn dal i barhau ar sut strwythur fydd gan y CMP yng Nghymru i'r dyfodol <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a llongyfarch SW ar y penodiad os yn ei dderbyn.</p>	
11.	<u>MATERION Y BARTNERIAETH</u>	
	<p>Adroddwyd y bydd RG yn symud ymlaen i holi'r Bartneriaeth os byddai modd iddynt drefnu cwrs cymorth cyntaf i aelodau'r Clwb</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
12	<u>AELODAU DAN 18</u>	
	<p>Cafwyd amlinelliad gan DAP o'r gofynion pe byddai'r Clwb yn caniatáu i unigolion dan 18 ymaelodi hefo'r Clwb o safbwynt cael polisi diogelu pe byddent yn dod ar daith heb oedolyn cyfrifol gyda hwy a hefyd ar yr angen a fyddai i benodi Swyddog Ieuenctid i sicrhau y cydymffurid â'r gofynion.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. diolch i DAP am y wybodaeth</p> <p>ii gan mai cymdeithas o gerddwyr cymdeithasol yn cael ei rhedeg ar sail wirfoddol yw'r Clwb nad yw yn ymarferol cwrdd â'r gofynion fel sydd angen ac yn sgil hynny na ddylid caniatáu i</p>	

	<p>unigolion dan 18 ymaelodi â'r Clwb iii nodi bod croeso i unigolion dan 18 ymuno ar deithiau cyn belled â bod oedolyn cyfrifol sy'n aelod o'r Clwb gyda hwy.</p>	
<p>13.</p>	<p><u>ASESIADAU RISG</u></p>	
	<p>Adroddodd GW yn dilyn damwain ddifrifol i aelod o glwb oedd yn dod o dan y CMP a'r goblygiadau/gwersi oedd yn deillio o hynny fod angen i'r Pwyllgor ystyried a ddylent gael asesiadau risg ar gyfer teithiau'r Clwb.</p> <p>Un peth oedd wedi ei daro oedd y dylai pob arweinydd benodi dirprwy ar gyfer ei daith a allai gadw golwg ar yr unigolion ar y cefn.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. byddai DAP yn cylchredeg cysylltiad i asesiadau risg sydd ar Wefan y CMP er mwyn gweld beth ydynt. ii. bod aelodau wedyn yn taro golwg drostynt a gweld os gellid cyplysu unrhyw anghenion ynddynt hefo canllawiau'r Clwb ar gyfer arweinyddion teithiau.</p>	
<p>13.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar nos Lun 4ydd Mai 2020 yng Nghapel Curig os yn bosibl.</p>	